

## Astudiaethau Ffilm a Theledu

Amser - 1.5 awr

Atebwch DDAU gwestiwn.

Rhaid i chi ategu'ch atebion trwy roi enghreifftiau penodol.

---

1. Trafodwch ystyr un neu fwy o'r termau canlynol ym maes rhaglenni teledu: 'cwtl', 'prif-ffrwd' a 'realaeth'.
2. Trafodwch ddwy ffilm neu ddrama deledu wrthgyferbyniol a wnaeth argraff arnoch yn ddiweddar. Yn eich barn chi, pa ffactorau ynglŷn â nhw a gyfrannodd at eich mwynhad?
3. Beth yw manteision ac anfanteision y twf cyfoes ym mhoblogrwydd y cyfryngau cymdeithasol a'r ffaith eu bod yno'n hawdd at ddefnydd pawb?
4. Mae cyfeirio at *genre* yn hanfodol wrth ddadansoddi ffilm. Trafodwch.
5. Ystyriwch un, neu fwy nag un, rhaglen ddogfen a wylio. Cloriannwch y dulliau a ddefnyddiwyd i greu stori gref.
6. Yn ddiweddar, mae Sianel 4 wedi prynu hawliau'r rhaglen *The Great British Bake Off*. Ym mha ffordd y byddech chi'n tybio y gallai fformat y rhaglen newid, wrth iddi symud oddi wrth y BBC at ddarlledwr masnachol? A pha effaith allai hyn ei chael ar y ffigurau gwyllo a/neu'r math o gynulleidfa?
7. Trafodwch ffilm o'ch dewis sydd wedi ei hail-wneud yn ddiweddar ar gyfer cynulleidfa gyfoes. Cymharwch a chyferbynnu'r ffilm 'newydd' â'r ffilm wreiddiol.